

# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** Cyngor

**Dyddiad y Cyfarfod:** 14 Rhagfyr 2023

**Teitl:** Adroddiad Hunanasesu Cyngor Sir Ceredigion  
2022/23

**Pwrpas yr adroddiad:** Cyflwyno Adroddiad Hunanasesu'r Cyngor 2022-23 fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**Er:** Penderfyniad

## **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**

**Y Cyngorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi a Pherfformiad a Phobl a Threfniadaeth**

## **Cyflwyniad**

Cyflwynodd Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 drefn perfformiad newydd yn seiliedig ar Hunanasesu ar gyfer Prif Gyngorau.

Bwriad y gyfundrefn berfformiad newydd yw adeiladu a chefnogi diwylliant lle mae cynghorau yn ceisio gwella a gwneud yn well yn barhaus ym mhopeth a wnânt, heb ystyried pa mor dda y maent yn perfformio eisoes. Mae'r Ddeddf yn disgwyl y bydd cynghorau bob amser yn ymdrechu i gyflawni mwy ac yn ceisio sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl a chymunedau lleol.

Mae 5 dyletswydd benodol i Gyngorau wedi cyflwyno gan y Ddeddf

- Dyletswydd i barhau i adolygu perfformiad
- Dyletswydd i ymgynghori ar berfformiad
- Dyletswydd i adrodd ar berfformiad
- Dyletswydd i drefnu Panel Asesu Perfformiad
- Dyletswydd i ymateb i Asesiad y Panel Perfformiad

O dan ei ddyletswydd i adrodd ar berfformiad, mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi Adroddiad Hunanasesu ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Bydd y rhain yn nodi'r casgliadau ynghylch a oedd y Cyngor wedi bodloni'r gofynion perfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol honno, ac unrhyw gamau y bydd yn eu cymryd neu y mae eisoes wedi eu cymryd i wella'i gynnydd wrth fodloni'r gofynion perfformiad. Mae pwyslais yr Adroddiad ar ddeall sut mae'r Cyngor yn gweithredu yn awr, y galwadau y bydd yn debygol o wynebu yn y dyfodol, a sut y gall adeiladu cynaliadwyedd.

## **Y Sefyllfa Gyfredol**

Ers Ebrill 2023, bu Cyngor Sir Ceredigion yn ymgymryd â'i gylch diweddaraf o Hunanasesu ac y mae amserlen o'r gweithgareddau ynghlwm yn Atodiad 1.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd wedi ei ddefnyddio i lunio Adroddiad Hunanasesu sydd ynghlwm yn Atodiad 2. Mae'r prif allbwn o'r broses Hunanasesu ac y mae'n nodi sut y mae'r Cyngor yn perfformio ar hyn o bryd a'r camau gweithredu mae'n bwriadu eu cymryd wrth fwrw ymlaen. Datblygwyd yr Adroddiad drwy asesu ystod eang o dystiolaeth gan gynnwys adroddiadau ac adolygiadau mewnol, adroddiadau archwilio a rheoleiddiol allanol ac yn hanfodol felly gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori.

Mae'n bwysig nodi bod yr Adroddiad Hunanasesu ar gyfer 2022/23 yn cyflawni gofynion y ddwy ddeddf yma:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – pennu ac adolygu cynnydd ar sail ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – y ddyletswydd i adrodd ar berfformiad, i ymgynghori ar berfformiad, i adrodd ar berfformiad, i drefnu Panel Asesu Perfformiad ac i ymateb i Asesiad y Panel Perfformiad.

Er mai'r Adroddiad Hunanasesu yw'r allbwn allweddol o'r broses, mae'r gwaith ar wella canlyniadau yn weithgaredd parhaus drwy gydol y flwyddyn. Drwy gydol y flwyddyn rydym yn cynnal ymgynghoriad i gefnogi hunanasesiad, rydym yn coladu tystiolaeth i lywio'r gweithdai, rydym yn cyflawni'r camau gweithredu yn ein cynllun gweithredu Hunanasesu ac rydym yn monitro eu cynnydd tuag at ei gwblhau.

Yn dilyn adborth positif oddi wrth Lywodraeth Cymru a'n cyfoedion ar adroddiad llynedd, rydym wedi cadw fformat tebyg ar gyfer eleni er mwyn cynorthwyo wrth ledaenu negeseuon allweddol a'i gadw'n gryno yn unol â chais Llywodraeth Cymru. Gwnaed nifer o welliannau eleni i gryfhau'r adroddiad:

- Darparu manylion pellach ar yr ymgynghoriad a'r gwaith ymgysylltu a wnaed yn ystod y flwyddyn a sut y'i defnyddiwyd.
- Darparu manylion am yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid i gefnogi hunanasesu.
- Darparu manylion pellach yn y darn ar arfarnu perfformiad cyffredinol y Cyngor.
- Diweddarau Cynllun Gweithredu Hunanasesu, gan ychwanegu'r camau gweithredu newydd a glustnodwyd yn ogystal â datblygiadau hyd yma.
- Ymestyn y darn ar feincnodi (mae gwaith pellach ar y gweill o ran datblygu hyn ar y cyd â Data Cymru).
- Ychwanegu adran ar "Strwythur y Cyngor" er mwyn darparu manylion ar sut y mae'r Cyngor wedi ei strwythuro.
- Cynnwys dolenni cyswllt i adroddiadau a strategaethau perthnasol eraill sy'n arfer da.

Mae Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2022-27 yn nodi ei Amcanion Llesiant Corfforaethol, a ddatblygwyd i hyrwyddo llesiant dinasyddion Ceredigion. Fe'u clustnodwyd drwy ddadansoddiad helaeth i dystiolaeth ac ymgysylltu â phreswylwyr gan gynnwys uchelgeisiau gweinyddiaeth wleidyddol newydd, Asesiad Ceredigion o Lesiant Lleol ac ymgynghoriad lleol. Mae tudalennau 33-48 o'r Adroddiad Hunanasesu yn adolygu datblygiad y Cyngor wrth ddarparu'r Amcanion. Yn dilyn adolygiad eleni o'r Amcanion argymhellir eu bod yn parhau heb newid ar gyfer y flwyddyn nesaf:

- Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth
- Creu cymunedau gofalgar ac iach
- Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu
- Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd

Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfrifoldeb statudol i ystyried yr Adroddiad Hunanasesu a gwneud argymhellion ar y casgliadau a'r camau gweithredu a argymhellir gan y Cyngor. Ystyriwyd yr Adroddiad yn ei gyfarfod ar 27 Medi 2023 ac fe'i gymeradwywyd i fynd ymlaen er cymeradwyaeth y Cyngor. Ni wnaed unrhyw argymhellion ffurfiol ar y casgliadau na'r camau gweithredu, er y gwnaed mân newidiadau i'r fformatio er mwyn gwella ansawdd yr adroddiad cyn cyfarfod y Cyngor.

### **Y Camau Nesaf**

Trefnwyd bod yr Adroddiad Hunanasesu yn mynd i'r Cyngor ar 30 Tachwedd cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Gweinidogion, Estyn ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ogystal â'i gyhoeddi ar y wefan.

### **Diweddaraf ar y Panel Asesu Perfformiad**

Mae cynnal Panel Asesu Perfformiad unwaith bob cylch etholiad yn rhan o'r Drefn Perfformiad Hunanasesu newydd. Bwriad yr Aseidiadau Panel yw darparu persbectif annibynnol ac allanol o'r graddau y mae'r Cyngor yn cyflawni ei ofynion perfformiad o ran Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Y nod yw cefnogi cynghorau i gyflawni eu dyheadau drwy ddatblygu a deall sut maent yn gweithredu a sut gallent sicrhau eu bod yn medru darparu gwasanaethau effeithiol yn yr hirdymor. Mae gwaith yn parhau i drefnu Panel Aseiad Perfformiad cyntaf y Cyngor sy'n ofynnol yn ystod 2024/25 a gefnogir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

### **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

#### **Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**

Naddo, nid yw'r Adroddiad Hunanasesu yn cyflwyno polisiau na strategaethau newydd.

### **Crynodeb o'r Aseiad Effaith Integredig:**

<b>Hirdymor:</b>	Amherthnasol
<b>Cydweithio:</b>	Amherthnasol
<b>Cynnwys:</b>	Amherthnasol
<b>Atal:</b>	Amherthnasol
<b>Integreiddio:</b>	Amherthnasol

### **Argymhelliad / Argymhellion:**

- 1. Bod y Cyngor yn cymeradwyo Adroddiad Hunanasesu 2022/23 gan gynnwys yr Adolygiad Blynyddol o'r Amcanion Perfformiad a Llesiant**
- 2. Bod y Cyngor yn cymeradwyo i'r Amcanion Llesiant Corfforaethol aros yr un peth am y flwyddyn nesaf**

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**

**Sicrhau y cydymffurfir â Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 / Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

**Trosolwg a Chraffu:**

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 27/09/2023

Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu 06/11/2023

**Fframwaith Polisi:**

Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**

Pob un, Mae'r Adroddiad Hunanasesu yn asesu perfformiad cyffredinol y Cyngor

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**

Dim. Bydd pob un o'r camau a geir yn y Cynllun Gweithredu Hunanasesu yn cael eu cyflawni o fewn y strwythurau a'r cyllidebau sydd ar waith ar hyn o bryd

**Goblygiadau cyfreithiol:**

Mae gan y Cyngor ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i bennu Amcanion Llesiant a Chamau i gyflawni'r Amcanion hyn

**Goblygiadau staffio:**

Dim. Bydd pob un o'r camau a geir yn y Cynllun Gweithredu Hunanasesu yn cael eu cyflawni o fewn y strwythurau a'r cyllidebau sydd ar waith ar hyn o bryd

**Goblygiadau eiddo / asedau:**

Dim. Bydd pob un o'r camau a geir yn y Cynllun Gweithredu Hunanasesu yn cael eu cyflawni o fewn y strwythurau a'r cyllidebau sydd ar waith ar hyn o bryd

**Risg(iau):**

Methu cyhoeddi Adroddiad Hunanasesu 2022-23 ac adolygiad o'r Amcanion Llesiant gan arwain at fethiant i gydymffurfio â deddfwriaeth.

**Pwerau Statudol:**

Amherthnasol

**Papurau Cefndir:**

Perfformiad a llywodraethu prif gynghorau: Canllawiau statudol ar Ran 6, Pennod 1, o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

<https://www.llyw.cymru/perfformiad-llywodraethu-awdurdodau-lleol-canllawiau-statudol>

**Atodiadau:**

Atodiad 1 – Amserlen o'r gweithgarwch i gefnogi Hunanasesu yn 2022-23

Atodiad 2 – Adroddiad Hunanasesu 2022-23

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**

Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd)

**Swyddog Adrodd:**

Rob Starr (Tîm Perfformiad ac Ymchwil)

**Dyddiad:**

9 Tachwedd 2023